



Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Prif Swyddogion Cynllunio
Un Llais Cymru

8 Ebrill 2013

Annwyl Gyfaill,

**ARDOLL SEILWAITH CYMUNEDOL:
TAI FFORDDIADWY A CHYFRAN 'YSTYRLON' I GYMUNEDAU LLEOL**

Ar ran Carl Sargeant AC, y Gweinidog Tai ac Adfywio, hoffwn dynnu eich sylw at benderfyniad a wnaed yn ddiweddar gan Lywodraeth y DU ynghylch dwy elfen benodol o'r Ardoll Seilwaith Cymunedol. Fel y byddwch eisoes yn ymwybodol mae'n siŵr, nid yw'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn fater datganoledig ac mae'n berthnasol i Gymru a Lloegr. Mae'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn effeithio nifer o adrannau'r awdurdodau lleol. Am hynny, byddwn yn ddiolchgar pe baech yn gallu sicrhau bod yr holl adrannau perthnasol o fewn eich awdurdod lleol yn ymwybodol o gynnwys y llythyr hwn.

Tai fforddiadwy

Yn y gorffennol, penderfynodd Llywodraeth y DU beidio â chynnwys tai fforddiadwy yng nghylch gwaith yr Ardoll Seilwaith Cymunedol. Nid oes unrhyw newid i'r sefyllfa hon. Felly, dylai awdurdodau lleol barhau i ystyried y ffordd orau o ddefnyddio cytundebau Adran 106 i symud tai fforddiadwy ymlaen, yn unol â pholisïau Cynllun Datblygu Lleol.

'Cyfran ystyrllon' ar gyfer cymunedau lleol

Cyflwynodd Ddeddf Lleoliaeth 2011 bŵer a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr basio cyfran 'ystyrllon' o gyllid yr Ardoll Seilwaith Cymunedol i gymunedau. Yn Neddf 2011, cafwyd diffiniad o gymunedau, a hynny'n berthnasol i Loegr yn unig. Yng Nghymru, mewn perthynas â chael cyfran o'r Ardoll Seilwaith Cymunedol, y diffiniad cyfatebol yw Cyngor Cymuned. Cyn hyn, ni roddwyd diffiniad penodol o'r hyn a olygwyd gan gyfran 'ystyrllon'.




Mae Llywodraeth y DU wedi dod i'r casgliad y dylid trosglwyddo 15 y cant o'r Ardoll Seilwaith Cymunedol i Gynghorau Cymuned. Pan nad oes cyngor cymuned yn bodoli, neu pan nad yw'r cyngor cymuned yn gallu clustnodi, gwario a rhoi cyfrif am arian o'r fath, bydd yr awdurdod codi tâl yn cadw cyllid yr Ardoll Seilwaith Cymunedol ond, yn unol â chanllawiau statudol, bydd yn ofynnol iddo gysylltu â'r cyngor cymuned pan fo datblygiad wedi digwydd i gytuno ar y ffordd orau o wario'r arian.

Rwyf yn eich hysbysu o'r penderfyniadau hyn i sicrhau bod awdurdodau lleol sy'n ystyried cyflwyno Ardoll Seilwaith Cymunedol yn y dyfodol yn ymwybodol o'r mater pwysig hwn, ac yn ystyried y mater mewn unrhyw atodlen. Cyhoeddir y canllawiau rheoleiddio a'r canllawiau statudol yn ddiweddarach eleni.

Gwnaed y cyhoeddiad gan Nick Boles, Gweinidog Cynllunio Llywodraeth y DU a gellir ei ddarllen drwy fynd i: <https://www.gov.uk/government/news/communities-to-receive-cash-boost-for-choosing-development>

Yn gywir



ROSEMARY THOMAS

**Prif Gynlluniwr/Dirprwy Gyfarwyddwr
Adran Tai ac Adfywio**